

At: Bob Aelod o'r Cyngor

Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2019

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a fydd yn cael ei gynnal am 2.00 pm Dydd Mawrth, 19eg Tachwedd, 2019 yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA i ystyried yr eitemau canlynol

Mae'r rhaglen hon yn destun cyfyngiadau o ran cynnwys oherwydd Cyfnod yr Etholiad sy'n dechrau ar 7 Tachwedd ac yn dod i ben ar 13 Rhagfyr.

R H A G L E N

1 CYFLWYNIADAU

Pwrpas: Cydnabyddiaeth Gwobrau Prentis y Flwyddyn APSE.

2 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Pwrpas: I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

3 COFNODION (Tudalennau 5 - 14)

Pwrpas: I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 22 Hydref 2019.

4 DATGAN CYSYLLTIAD

Pwrpas: I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

5 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Pwrpas: Derbyn unrhyw gyhoeddiad fel y'i dosbarthwyd.

6 DEISEBAU

Pwrpas: Mae hwn yn gyfle i Aelodau'r Cyngor gyflwyno deisebau ar ran pobl yn eu ward. Unwaith y byddant wedi dod i law, caiff deisebau eu pasio i'r Prif Swyddog priodol ar gyfer gweithredu ac ymateb iddynt.

7 TEYRNGEDAU I'R DIWEDDAR GYNGHORYDD NIGEL STEELE-MORTIMER

Pwrpas: i alluogi Aelodau i dalu teyrnged i'r diweddar Gyngorydd Nigel Steele-Mortimer

8 CROESO I'R CYNGHORYDD KEVIN RUSH

Pwrpas: Croeso i'r Cyngorydd Kevin Rush, a etholwyd yn Aelod o Gorllewin Bagillt ar 24 Hydref 2019.

PRIF EITEMAU BUSNES

9 ADOLYGIAD ETHOLIADOL SIR Y FFLINT (Tudalennau 15 - 40)

Adroddiad Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu)

Pwrpas: Ymateb i gynigion drafft o Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

10 DATGANIAD DIWYGIEDIG AR BOLISIAU TÂL AR GYFER 2019/20
(Tudalennau 41 - 82)

Adroddiad Prif Weithredwr, Uwch Rheolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Cyfundrefnol

Pwrpas: Mae'n ofynnol bod bob cyngor yn cyhoeddi eu Datganiad ar Bolisiau Tâl erbyn mis Ebrill bob blwyddyn. Y Datganiad ar Bolisiau Tâl a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yw'r seithfed Datganiad blynyddol a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir y Fflint.

ER GWYBODAETH YN UNIG

11 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Pwrpas: Derbyn Cwestiynau Cyhoeddus ar gyfer yr eitem hon: doedd dim wedi dod i law erbyn y dyddiad cau.

12 CWESTIYNAU

Pwrpas: Nodi'r atebion i unrhyw gwestiwn a gyflwynwyd yn unol â Rheol Sefydlog 9.4(A) y Cyngor Sir: doedd dim wedi dod i law erbyn y dyddiad cau.

13 **RHYBUDD O GYNNIG**

Pwrpas: Mae'r eitem hon ar gyfer derbyn unrhyw Rybudd o Gynnig: dim ohonynt yn gymwys ac yn gallu cael eu hystyried yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad.

Yn ddiffuant,



Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democraidd

HYSBYSIAD GWEDDARLLEDU

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio a'l ddarlledu'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd y cyfarfod cyfan yn cael ei ffilmio oni bai fod eitemau cyfrinachol neu wedi'u heithrio dan drafodaeth.

Yn gyffredinol ni fydd y manau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag wrth i chi ddod i mewn i'r Siambr, byddwch yn cydsynio i gael eich ffilmio ac i'r defnydd posibl o'r delweddau a'r recordiadau sain hynny ar gyfer gweddarlledu a/neu ddibenion hyfforddi.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, ffoniwch aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democraidd ar 01352 702345.